Crynodeb 60 eiliad

# Apiau a gemau ar-lein i blant: cyngor i rieni a gofalwyr

## A ydych chi'n gwybod os yw eich plentyn yn gwario arian ychwanegol wrth chwarae gemau ar-lein ac mewn apiau?

Efallai y bydd rhai o'r gemau hyn yn annog plant i brynu pethau wrth chwarae, yn cynnwys prynu eitemau neu gynnwys sy'n ofynnol i ddal i chwarae.

Wedi i chi brynu neu lawrlwytho gêm, os nad ydych wedi diweddaru gosodiadau eich dyfais efallai y bydd yn caniatáu i'ch plentyn brynu pethau wrth chwarae heb roi cyfrinair.

## Awgrymau da i'ch helpu i osgoi problemau:


- **gwiriwch osodiadau eich dyfais**
- **cyfarwyddwch eich hun â'r gêm**
- **gwiriwch eich biliau**

**Gwiriwch sut mae'r ddyfais wedi ei sefydlu.**
Cyn i chi adael i'ch plentyn ddefnyddio'r ddyfais, gwiriwch eich gosodiadau pryniant i'w atal rhag gwario'r arian yn ddiarwybod a pheidiwch â rhannu eich cyfrinair.

**Darllenwch bopeth amdano.**
Cyn i chi neu'ch plentyn lawrlwytho gêm, gwiriwch y disgrifiad i wneud yn siŵr eich bod yn fodlon caniatáu i'ch plentyn ei chwarae. Dylai roi gwybod i chi am brif nodweddion y gêm, trefniadau talu a gyda phwy i gysylltu os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os ydych chi eisiau cwyno.

**Faint?**
Gwiriwch eich biliau i weld a oes arian wedi mynd o'ch cyfrif yn ddiarwybod i chi neu heb eich cydsyniad. Os yw, cysylltwch â gweithredwr y gêm neu ddarparwr y platfform.

Dylech gael yr holl wybodaeth bwysig – yn cynnwys sut i ofyn cwestiynau neu gwyno – cyn i'ch plentyn ddechrau chwarae.



### Pam mae hyn yn bwysig?

Mae'r CMA wedi monitro sector gemau ar-lein ac mewn apiau i blant i wirio a yw busnesau yn bodloni eu rhwymedigaethau cyfreithiol.

Am ragor o wybodaeth ar waith y CMA yn y sector hwn www.gov.uk/cma-cases/children-s-online-games

Am gyngor, cysylltwch â Chyngor ar Bopeth:

03444 111444 (Lloegr)

03444 772020 (Cymru)

www.adviceguide.org.uk

**Nid yw'r deunyddiau hyn yn cyfateb i gyngor cyfreithiol ac ni ddylid dibynnu arnynt felly.**